# Cofnodion Bwrdd TrC

**21 Rhagfyr 2023**

09:30 – 16:00

Lleoliad – Llys Cadwyn

---

**Yn bresennol**

Scott Waddington (Cadeirydd), Heather Clash, Nicola Kemmery, Vernon Everitt, Alison Noon-Jones, Sarah Howells, Alun Bowen a James Price.

Hefyd yn bresennol: Alan McCarthy (Unite) (eitemau 1-3), Leyton Powell (Eitem 1-2, a 6.4), Matthew Gilbert (Eitem 6.1), Zoe Smith-Doe (Eitem 6.2), Dan Tipper (Eitem 6.3), Peter McDonald (eitemau 1-8), Andrew Morgan (eitemau 1-8), a Ross Whiting.

## Rhan A – Cyfarfod y Bwrdd Llawn

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

### 1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim.

### 1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datganodd fod y cyfarfod yn agored.

### 1c. Datgan Buddiant

Dim.

### 1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol

Derbyniwyd bod cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 16 Tachwedd 2023 yn gofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

### 1e. Sylw i Ddiogelwch

Tynnwyd sylw'r Bwrdd at nifer o ddirwyon nodedig yn ymwneud â digwyddiadau diogelwch yn ymwneud â marwolaethau mewn rhannau eraill o'r DU ac mai peidio mynd i'r afael â materion sylfaenol sy'n aml yn arwain at ddigwyddiadau o'r fath. Mae gwersi i'w dysgu ynghylch sicrhau bod ystyriaethau diogelwch sylfaenol yn cael eu cynnal.

### 1f. Sylw i Gwsmeriaid

Trafododd y Bwrdd brofiad diweddar lle prynwyd tocyn ar gyfer trên o Ben-y-bont ar Ogwr. Roedd arwydd TrC yn dangos mai dim ond lle i sefyll oedd ar gael, ond dim ond ar ôl prynu'r tocyn roedd modd gweld hyn. Ni all cwsmeriaid (ar ôl iddynt brynu tocyn) ddal trên gwahanol gan ei fod yn docyn gwahanol. Trafododd y Bwrdd faterion yn ymwneud â rhannu'r wybodaeth hon pan fydd pobl yn prynu'r tocyn ar yr ap yn hytrach na phan fyddant yn cyrraedd y platfform.

[redacted]

**2. Perfformiad diogelwch**

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad ar berfformiad diogelwch a oedd wedi'i gynnwys yn y pecyn. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar yr asesiad DSEAR yn Nepo Treganna, y Cynllun Diogelwch a Chydnerthedd, y System Rheoli Diogelwch, a chynnydd y gweithgor croesfannau rheilffordd. Rhoddwyd torsolwg i'r Bwrdd hefyd ar berfformiad diogelwch gan gynnwys damweiniau, cadernid busnes, canllawiau tywydd eithafol, damweiniau a digwyddiadau Pullman Rail ac AIW. Cafodd y Bwrdd hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddiben 'teithiau cerdded arweinwyr' yr uwch reolwyr.

*Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.*

**3. Diweddariad Strategol / Datblygu**

**3.1 – Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Trafododd y Bwrdd gynnwys adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella perfformiad rheilffyrdd. Yn ystod y mis, roedd problemau sylweddol gyda 'gwendid cyswllt rolio' y fflyd Cl.197 a oedd yn golygu bod angen troi olwynion yn annisgwyl a heb ei gynllunio ac roedd yn effeithio'n sylweddol ar argaeledd unedau. Mae ymchwiliadau'n mynd rhagddynt i bennu gwraidd y broblem ac i ddod o hyd i ateb, gan gynnwys sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer turn yr hydref nesaf. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen i ddod o hyd i ateb parhaol ac nid ateb cyflym yn unig. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ymhen tri mis **[Cam Gweithredu James Price]**. Hysbyswyd y Bwrdd bod adroddiad annibynnol wedi'i gomisiynu a oedd yn ceisio mynd i'r afael â'r angen am ateb hirdymor parhaol.
- Cyfradd cyflawni Cl. Mae unedau 197 wedi gostwng i un bob 15 diwrnod. Gofynnodd y Bwrdd i uwchgyfeirio'r mater i'r gwneuthurwr **[Cam Gweithredu James Price]**. Trafododd y Bwrdd yr angen am ddull gweithredu cydlynol tuag at gydnerthedd. Cytunwyd y bydd adroddiad yn cael ei ddarparu **[Cam Gweithredu James Price]**.
- Cafwyd trafodaethau pellach ar berfformiad rheilffyrdd gan gynnwys gwasanaethau Llinellau Craidd y Cymoedd, Dangosyddion Perfformiad Allweddol rheilffyrdd, Wrecsam i Bidston a meysydd tarfu posibl eraill yn y dyfodol. Cytunwyd ei bod yn hanfodol cyfathrebu'n effeithiol ar darfu y gwyddom amdano ac a flaen-gynlluniwyd.
- Dywedodd Llywodraeth Cymru na ddylai'r Bwrdd danbrisio'r heriau diweddar o sicrhau TrC mewn trafodaethau ar y gyllideb mewn cyd-destun lle mae TrC sy'n wynebu problemau perfformiad. Nododd y Bwrdd y datganiad hwn a phwysleisio y dylid parhau i ganolbwyntio ar leihau costau a

pherfformiad craidd. Trafododd y Bwrdd welliannau i brynu tocynnau ac ap TrC er mwyn cynyddu refeniw. Cytunwyd y byddai Sarah Howells yn trafod eitemau i ychwanegu gwerth i'r ap gyda Heather Clash a Marie Daly **[Cam Gweithredu Sarah Howells]**.

*Gadawodd Alan McCarthy y cyfarfod.*

- Bydd papur ar fasnachfreinio bysiau yn cael ei gyflwyno yn y Bwrdd mewn cyfarfod ddechrau 2024. Bydd y papur yn cael ei ddrafftio ar ôl sawl archwiliad dwfn parhaus ac ar ôl datblygu tybiaethau polisi. Nododd y Bwrdd fod angen cytundeb ar sut y bydd cyllidebau a chyllid yn gweithio.
- Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ar opsiynau ar gyfer cwblhau prosiect Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, ac rydym yn datblygu cyngor ffurfiol i Lywodraeth Cymru. Trafododd y Bwrdd risgiau a chamau lliniaru'r prosiect.

Cafodd y Bwrdd hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiect Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd, Prosiect Gwella Gorsaf Caerdydd Canolog, y cynllun peilot Talu wrth Fynd, Taliadau Defnyddwyr Ffordd Caerdydd, Adran 5 yr A465, tocynnau cosb rheilffyrdd, darpariaeth gatiau mewn gorsafoedd, cynigion teithio heb docyn a thalu.

**3.2 – Hyfforddiant Gwrth-hiliaeth**

*Ymunodd Dan Tipper, Leyton Powell, Geoff Ogden, Alexia Course, yr Athrawon Uzo Iwobi (Race Council Cymru), Emmanuel Ogbonna (Prifysgol Caerdydd) â'r cyfarfod.*

Mewn ymateb i'r ymrwymiad a wnaed yng nghynllun Gwrth-hiliaeth TrC, cafodd y Bwrdd, yn ogystal ag aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol, sesiwn hyfforddi gwrth-hiliaeth gan yr athrawon Uzo Iwobi ac Emmanuel Ogbonna.

Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar y materion hyn. Gwahoddwyd y Bwrdd i lofnodi addewid gwrth-hiliaeth Dim Hiliaeth Cymru fel sefydliad ac fel unigolion. Nodwyd bod y sefydliad eisoes wedi llofnodi'r addewid.

*Gadawodd Dan Tipper, Leyton Powell, Geoff Ogden, Alexia Course, yr Athrawon Uzo Iwobi ac Emmanuel Ogbonna y cyfarfod.*

**3.3 – Cyllid (Cyfrifon Rheoli)**

Clywodd y Bwrdd y bydd fersiwn nesaf y cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Ionawr.

Rhoddwyd trosolwg manwl i'r Bwrdd o'r adroddiad mewnol a'r sefyllfa alldro ariannol.

Rhoddwyd trosolwg i'r Bwrdd o'r sleidiau yn y pecyn, gan gynnwys gofynion cyllid amodol y BEL, a'r newidiadau a fydd yn cael eu gwneud a'u hymgorffori. Hysbyswyd y Bwrdd bod ELT wedi gweithio gyda'r tîm cyllid i ganfod arbedion.

**4. Diweddariad ar yr Is-gwmni**

**4.1 - Bwrdd Rheilffyrdd TrC**

Rhoddwyd trosolwg i'r Bwrdd o gyfarfod y bwrdd rheilffyrdd ym mis Rhagfyr. Roedd y cyfarfod yn ymdrin â pherfformiad, cyllid, marchnata, tocynnau, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynyddu refeniw. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r dangosfwrdd risg.

**4.2 - Bwrdd Rheilffyrdd Pullman**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod bwrdd diweddar Pullmain Rail Cyf.

**<u>Rhan B – Sesiwn Diweddariad Gweithredol</u>**

**5. Diweddariadau Gweithredol**

**5.1 – Teithio Llesol**

*Ymunodd Matthew Gilbers a Geoff Ogden â'r cyfarfod.*

Rhoddwyd trosolwg i'r Bwrdd o'r cyflwyniad a oedd wedi'i gynnwys yn y pecyn. Roedd yn cynnwys trosolwg a rhesymeg ar gyfer gwaith parhaus cyfredol, heriau allweddol, argymhellion CPGATA, trosolwg o'r rhaglen teithio llesol a chreu lleoedd, adnodd blaenoriaethu map rhwydwaith teithio llesol – gan ddefnyddio data geo-ofodol TrC ei hun, rhaglen 2023-24 y gronfa teithio llesol a sefyllfa'r gyllideb, rhaglen gymorth ATF 2023-24, sylfaen tystiolaeth teithio llesol, newid ymddygiad (gan gynnwys pecyn cymorth hyrwyddo, cronfa ddata o ddelweddau, a phrosiect momentwm), a'r academi teithio llesol ar gyfer awdurdodau lleol.

Croesawodd y Bwrdd y cyflwyniad a thrafod effaith cynlluniau blaenorol, gan baratoi ar gyfer unrhyw danwariant ar y prosiect a'r angen i gynlluniau gyd-fynd â chynlluniau ar gyfer rhwydwaith integredig. Gofynnodd y Bwrdd i hyn gael ei gynnwys yn y diweddariad nesaf **[Cam Gweithredu Geoff Ogden a Matthew Gilbert]** .

Yn dilyn adborth gan yr arsyllydd llywodraeth leol, cytunodd y Bwrdd i ystyried yr angen am agwedd gytbwys tuag at safonau a gwerth am arian. Cytunwyd y byddai TrC yn archwilio gan sicrhau bod y dull rhanddirymiad yn gymesur ac yn bragmatig.

*Gadawodd Matthew Gilbert y cyfarfod.*

**6.2 - Cynllun Busnes TrC 2024/25**

*Ymunodd Zoe Smith-Doe â'r cyfarfod.*

Rhoddwyd trosolwg i'r Bwrdd o gyfarfodydd diweddar i adolygu cynllun busnes 2024/25. Cyflwynwyd y cynllun drafft i Lywodraeth Cymru gyda'r nod o gael cymeradwyaeth y Dirprwy Weinidog ym mis Chwefror 2024.

*Gadawodd Zoe Smith-Doe y cyfarfod.*

**6.3 – Diweddariad Llinellau Craidd y Cymoedd**

*Ymunodd Dan Tipper â'r cyfarfod.*

Nododd y Bwrdd y manylion a oedd wedi'u cynnwys yn y pecyn. Llwyddwyd i gwblhau comisiynu signalau Treherbert, gyda signalau'n mynd drwy'r broses mynediad i'r gwasanaeth. Cafodd y Bwrdd hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am barodrwydd cerbydau a'r cynnydd o ran rhediadau profi. Disgwylir defnydd buddiol o ddepo Ffynnon Taf ddiwedd mis Ionawr neu ddechrau mis Chwefror 2024, a bydd gweithrediad cyffredinol yn dechrau o fis Mai 2024 ymlaen.

Cafodd y Bwrdd grynodeb o'r cyflawniadau o ran trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd ar gyfer 2023. Croesawodd y Bwrdd y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn a rhoddwyd llongyfarchiadau i bawb a oedd yn gysylltiedig am yr hyn a gyflawnwyd mewn amgylchedd lle'r oedd pwysau mawr ond ffocws ar ddiogelwch. Nododd y Bwrdd yr adferiad sylweddol ers cyfnod COVID.

*Gadawodd Dan Tipper y cyfarfod.*

**6.4 – Cofrestr Risg**

*Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.*

Rhoddwyd trosolwg lefel uchel i'r Bwrdd o'r Gofrestr risgiau strategol, proffiliau risg, a throsolwg o gynnydd a gostyngiadau ar sgoriau ARM, a'r rheini a arosodd yr un fath.

Cytunwyd i roi crynodeb o'r symudiadau ar y gofrestr **[Cam gweithredu i Leyton Powell].** Cytunwyd hefyd y dylid cynnwys risg sy'n ymwneud â darparu TrC 2.0 **[Cam Gweithredu Leyton Powell]** .

*Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.*

**7. Diweddariad ar yr Is-bwyllgorau**

**7.1 – Prosiectau Mawr (17 Tachwedd 2023)**

Ni wnaeth y pwyllgor ymdrin â Llinellau Craidd y Cymoedd na Chaerdydd Canolog gan eu bod wedi cael sylw yn y prif fwrdd ddiwrnod ynghynt. Nododd y pwyllgor swyddogaeth y Swyddfa Rheoli Rhaglenni sy'n esblygu, y diweddariad ar drawsnewid bysiau, cyfnewidfa Caerdydd, Crossrail Caerdydd, cais cysylltedd Gogledd Cymru a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu gorsafoedd Burns yn Ne Cymru.

**7.3 – Y Pwyllgor Archwilio a Risg (15 Rhagfyr 2023)**

Cafodd y Pwyllgor ei friffio ar gynllunio ar gyfer archwiliad allanol y flwyddyn nesaf. Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf hefyd ar yr amgylchedd rheoli mewnol sy'n datblygu, cyllid rheilffyrdd / proses trawsnewid TG, ac archwiliad dwfn o'r broses risg.

**7.4 – Iechyd, Diogelwch a Llesiant (18 Rhagfyr 2023)**

Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar heriau yn ymwneud â rheilffyrdd, storfa fatris Treganna, adolygiadau o risgiau hinsawdd, iechyd galwedigaethol, perfformiad Llinellau Craidd y Cymoedd, Pullman Rail Ltd, a'r broses dyletswydd gofal.

**8. Diweddariad y Bwrdd Llywio**

Cyllid a'r gyllideb gafodd y prif sylw yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd Llywio. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd yn y cyfarfod i'r opsiynau ar gyfer cwblhau prosiect trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, cofrestr risg TrC, bysiau, cyfnewidfa Caerdydd, TrC 2.0 a Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

**9. Sesiwn Gyfrinachol**

Trafododd y Bwrdd ddatblygiad parhaus 'TrC 2.0'. Cytunodd y Bwrdd i adolygu memo i'w baratoi gan Vernon Everitt ac i roi adborth cyn 7 Ionawr 2024 **[Cam Gweithredu PAWB]**.

**10. Unrhyw Fater Arall**

Dim.

**Gan nad oedd unrhyw fater pellach, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.**